


Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam, dydd Gwener, 13 Tachwedd 2020

Nodiadau Gweithredu

	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam 13 Tachwedd 2020			
	Yn bresennol:			
	Sue Price, Cadeirydd (Coleg Cambria) Y Cyng Hugh Jones, Dirprwy Gadeirydd (CBSW) Lyndsey Rawlinson (Cyfoeth Naturiol Cymru) Karen Evans (CBSW) John Gallanders (Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam) Nina Ruddle (Glyndŵr) Richard Fairhead (Cyllid ac Adnoddau) Vicky Poole ar ran Sioned Rees (LIC) Bethan Venning ar ran Rob Smith (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) Lucy Davies (Gwasanaeth Prawf) Michael Cantwell (CBSW)			
	Ymddiheuriadau:			
	Amanda Aldridge (Adran Gwaith a Phensiynau) Ian Bancroft (CBSW) Y Cyng Mark Pritchard (CBSW) Rob Smith (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) Rebecca Masters, Bob Baines (Iechyd Cyhoeddus Cymru) Stephen Roberts, Heddlu Gogledd Cymru			
		Pwy	Gan	Statws
1.	Croeso			
	Croesawodd SP bawb i'r cyfarfod ac eglurodd fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam yn parhau i gyfarfod wrth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a Sir y Fflint weithio ar gynllun adfer COVID. Bydd hyn yn golygu y bydd unrhyw gamau presennol a chamau penodol i Wrecsam yn parhau i dderbyn sylw, a bydd dull ar waith i ymgysylltu â phroses graffu CBSW a chynhyrchu'r adroddiad blynyddol a'r asesiad lles yn 2021.			
2.	Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf			
	Cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnwys cyfeiriad yn y Llawlyfr a'r Cylch Gorchwyl at y gwaith adfer ar y cyd.	MC		

	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam 13 Tachwedd 2020			
3.	Cynllun Adfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd Wrecsam a Sir y Fflint			
	Nodwyd y cynnydd. Mae pob un o bartneriaid y BGC yn cymryd rhan, naill ai fel rhan o'r BGC ar y cyd neu drwy weithio'n uniongyrchol ar un o'r themâu. Bydd Pwyllgor Craffu CBSW yn ystyried y gwaith ar y cynllun adfer yn y Flwyddyn Newydd.			
4.	Cynllun Gweithredu BGC Wrecsam			
	Cafwyd trafodaeth am sut i gynyddu effeithlonrwydd a gwelededd y BGC.			
	Roedd BGC Wrecsam wedi gwneud cynnydd effeithiol o ran datblygu'r cynllun gweithredu llywodraethu ym mis Ionawr 2020, felly bydd yn rhaid i ni ail-ystyried y cynllun hwn unwaith y byddwn wedi dod allan o'r cyfnod clo.  Wrexham PSB governanceactionpl			
	Bydd yn rhaid i sefydliadau BGC Wrecsam gefnogi cynllun adfer y BGC ar y cyd a sicrhau ei fod yn bodloni ei bwrpas, gyda goruchwyliaeth clir a monitro COG.			
	<i>Cytunwyd i ddefnyddio'r amser bob chwarter yng nghyfarfodydd BGC Wrecsam i bartneriaid ddal i fyny gyda'i gilydd, trafod cyfleoedd a heriau lleol ac adolygu cynnydd y cynllun adfer ar y cyd.</i>			
	Roedd SP a MC wedi adolygu <i>camau gweithredu bwrdd rhaglen</i> presennol y BGC. Cytunwyd y bydd y cynllun adfer ar y cyd yn ymgymryd â thair ffrwd gwaith. <ul style="list-style-type: none"> • <i>Defnyddio rhaglen adeiladu tai newydd y Cyngor i ddatblygu sgiliau bywyd (symud i'r llwybr Dysgu Oedolion a'r Gymuned)</i> • <i>Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ar draws ein cymunedau (wedi'i nodi dan y thema Tlodi ac Anghydraddoldebau)</i> • <i>Datblygu cydlyniant cymunedol yn Wrecsam (wedi'i nodi dan y thema Tlodi ac Anghydraddoldebau)</i> 			
	Mae hyn y gadael gweithio gyda'r thema Plant a Phobl Ifanc yn y cynllun adfer ar y cyd i <ul style="list-style-type: none"> • Barhau i ddatblygu Dull Hawliau Plant ar draws sefydliadau'r BGC 	SP/MC		
5.	Cynllunio Ymlaen			

	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam 13 Tachwedd 2020			
	Eitemau i'w trafod yng nghyfarfodydd y BGC i'r dyfodol – anfonwch unrhyw eitemau at Michael Cantwell os gwelwch yn dda			
	Dyddiad y cyfarfod nesaf			
	10am, dydd Iau, Mai 2021			